# Parc Cenedlaethol Arfaethedig

## Astudiaethau achos o arfer da mewn parciau cenedlaethol














Rhif yr adroddiad: Mai 2025

Awdur: Olwen Maidment, Aelod Siartredig o’r Sefydliad Tirwedd, Cyfoeth Naturiol Cymru

# Cynnwys

Astudiaethau achos o arfer da mewn parciau cenedlaethol....................................................1
Cyflwyniad ....................................................................................................................2
Thema 1. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth, rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd ....3
Rhwydwaith ffermio sy’n ystyriol o fyd natur.....................................................................3
Ffermio Bro .....................................................................................................................4
Prosiect mawndiroedd ac ucheldiroedd ............................................................................6
Crynodeb.......................................................................................................................17

# Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu’r achos dros barc cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a elwir bellach yn dirwedd genedlaethol.

Cynhaliwyd proses ymgysylltu cynnar yn 2023, gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig y parc cenedlaethol newydd wedi’i gynnal yn hydref 2024. Ar y pwynt hwnnw, roedd addasrwydd parc cenedlaethol ac opsiynau amgen wedi’u gwerthuso, ac roedd asesiad tirwedd manwl wedi mireinio’r ardal astudio yn ffin arfaethedig neu’n ardal ymgeisiol, y ceisiwyd barn arni.

Rhoddodd yr ymatebwyr wybod i ni am eu cefnogaeth, eu pryderon a’u hawgrymiadau ar gyfer cynnig y parc cenedlaethol newydd drwy holiadur. Daeth nifer o themâu allweddol i’r amlwg yn 2023, gyda’r rhai a grybwyllwyd amlaf yn cynnwys:

1. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal, llonyddwch
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith

Yn 2024, dyma oedd y tair thema a grybwyllwyd amlaf:

1. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal, llonyddwch
2. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal, llonyddwch

3. Cwestiynu'r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid a biwrocratiaeth

Er mwyn cydnabod y themâu allweddol hyn sy'n dod i'r amlwg, rydym wedi dwyn ynghyd rai astudiaethau achos sy'n dangos arfer da wrth fynd i'r afael â rhai materion cyffredin sy'n codi ym mharciau cenedlaethol presennol Cymru, ac sydd hefyd yn debygol o godi neu sydd wedi'u codi fel pryderon mewn parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut mae parciau cenedlaethol presennol Cymru yn gallu mynd i'r afael â phryderon ynghylch rheoli'r dirwedd yn gynaliadwy er budd byd natur, ffermio a chymunedau.

Mae llawer o'r astudiaethau achos wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £4 miliwn i raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn 2024–2025, a chadarnhaodd £3.75 miliwn yn 2025–2026 a rennir rhwng wyth tirwedd ddynodedig ar gyfer prosiectau yn ymwneud â natur a charbon, a phrosiectau cyfalaf cyffredinol yn ymwneud â chyflawni eu dibenion.

# Thema 1. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth, rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd

## Rhwydwaith ffermio sy'n ystyriol o fyd natur

Grŵp o 10 fferm o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yw 'Ffermwyr yr Wnion – Prosiect Fferm Grŵp Gweithredu Hinsawdd', sydd oll wedi'u lleoli o fewn dalgylch afon Wnion. Bu Swyddog Cymorth Ffermio Parc Cenedlaethol Eryri yn gweithio'n agos gyda'r ffermwyr i hwyluso'r prosiect hwn.

Mae swyddogion cymorth ffermio ar gael i gefnogi ffermwyr i gael mynediad at gyllid ac adnoddau ac i roi cyngor ar arferion gorau ar gyfer bioamrywiaeth a rheoli cynefinoedd ym mhob parc cenedlaethol. Maent yn cydweithio â ffermwyr a chymunedau lleol, yn meithrin partneriaethau a datblygu polisïau, ac yn cynrychioli buddiannau ffermwyr o fewn y parciau cenedlaethol. Gellir gweld y cynllun hwn fel un sy'n dilyn ethos tebyg i'r cynllun newydd Ffermio Bro wrth gefnogi ffermio cynaliadwy gyda dull cydweithredol.

### Cyllid:

- Prosiect rhaglen Cyswllt Ffermio a ariennir gan Lywodraeth Cymru, rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014–2025. Rhaid i ffermwyr gofrestru ar gyfer y rhaglen. Mae llawer o wasanaethau wedi'u hariannu'n llawn, tra bod gwasanaethau eraill yn cael cymhorthdal hyd at 80%.

### Ffeithiau allweddol:

- Sefydlwyd y prosiect hwn ar raddfa dirwedd yn 2020, a'i nod yw mynd i'r afael â materion lleol sy'n ymwneud â'r perygl o lifogydd ac ansawdd dŵr ar y cyd, ac mae'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.

- Yng ngwanwyn 2021, plannwyd 3,725 metr o wrychoedd o amgylch y 10 fferm, sy'n cyfateb i dros 26,000 o goed. Erbyn mis Mawrth 2022, bydd 4,000 metr arall wedi'i blannu, gan ddod â chyfanswm y coed a blannwyd yn agos at 55,000.

- Mae'r prosiect hwn yn cyflawni gweithredu ar yr hinsawdd drwy atebion ar sail natur sydd hefyd o fudd i adferiad bioamrywiaeth. Mae gwrychoedd yn darparu coridorau bwyd, lloches a theithio angenrheidiol i fywyd gwyllt, tra bod pyllau llifogydd yn cynnal bywyd gwyllt dyfrol. Mae rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, megis clymog Japan, yn caniatáu i rywogaethau torlannol pwysig ailsefydlu, tra bod blocio draeniau o waith dyn ar fawndiroedd yr ucheldir yn helpu i adfer cynefin hynod werthfawr.

Dywedodd Rhys Evans, swyddog prosiect rhwydwaith ffermio sy'n ystyriol o fyd natur ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ynglŷn â'r canlyniadau i fusnesau fferm:

"Mae ein gweithredoedd yn darparu senarios lle mae pawb ar eu hennill i'r busnes fferm a'r amgylchedd. Nid yn unig y mae gwrychoedd yn dda i'r amgylchedd, ond maent hefyd yn ffiniau caeau dibynadwy. Felly, maen nhw o gymorth mawr wrth gadw da byw lle maen nhw i fod, fel bod llai o amser yn cael ei dreulio yn mynd ar ôl gwartheg a defaid sydd ar wasgar. Maent hefyd yn cynnig lloches a chysgod i dda byw, gan helpu i hybu cynhyrchiant. Mae'n amlwg y bydd perygl llai o lifogydd yn helpu i amddiffyn seilwaith, da byw ac asedau naturiol y ffermydd, gan arbed amser, arian ac ymdrech."



https://www.nffn.org.uk/farmer-stories/ffermwyr-yr-wnion-climate-action-group-project

## Ffermio Bro

Mae Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig yn gynllun newydd i ffermwyr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar waith rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2028. Mae'n cynnal prosiectau ffermio ar draws parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol Cymru (a elwir yn gyfreithiol yn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) sy'n gwneud gwelliannau i fyd natur a'r amgylchedd. Mae Ffermio Bro yn rhan o gam paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a bydd yn llywio datblygiad yr haen gydweithredol.

## Cyllid:

- Cyllid o ryw £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn gyntaf ar draws yr holl dirweddau dynodedig, gyda phob un yn cael ei ddyraniad ei hun i benderfynu'n unigol sut i'w wario. Cyfalaf yn unig yw'r cyllid, ac nid oes dyraniad ar gyfer cynnal a chadw na rheoli.

## Ffeithiau allweddol:

- Cynllun tair blynedd sydd ond ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr / rheolwyr eraill ym mharciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol Cymru (a elwir yn gyfreithiol yn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol).
- Cynllun cydweithredol sy'n canolbwyntio ar brosiectau ar draws nifer o ffermydd er mwyn cyflawni newid ar raddfa'r dirwedd er lles natur a'r amgylchedd.
- Nid oes angen iddynt fod yn glystyrau ffurfiol, ond byddant yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cyflawni nod cyffredin ar draws sawl fferm. Bydd prosiectau fferm unigol hefyd yn cael eu hystyried.
- Bydd cynghorwyr Ffermio Bro yn hwyluso cydweithrediadau gyda chefnogaeth yn cael ei chroesawu gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol a sefydliadau eraill.
- Gellir cynnal ystod eang iawn o weithgareddau ar raddfa tirwedd, sy'n galluogi ffermwyr i helpu natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys adfer coetiroedd a gwrychoedd, cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol a'u dileu, rheoli risg llifogydd yn naturiol, gwella a chreu gwlyptiroedd a chynefinoedd torlannol, gwella cynefinoedd a mawndiroedd agored, adfer dolydd gwair traddodiadol, adfer ffiniau traddodiadol, gwella mynediad i gefn gwlad, mesurau wedi'u targedu i gefnogi adferiad rhywogaethau a chynefinoedd, a gwella ansawdd dŵr.

Bydd cynghorwyr arbenigol sydd wedi'u lleoli yn y parciau cenedlaethol a'r tirweddau cenedlaethol yn cynghori ffermwyr a thirfeddianwyr ar ddatblygu prosiectau. Caiff ceisiadau am lai na £10,000 eu hasesu gan y corff tirwedd ddynodedig, gyda'r rhai dros £10,000 yn cael eu hasesu gan banel asesu lleol annibynnol.

Nod y cynllun yw cefnogi ffermwyr i wneud tirweddau dynodedig yn lleoedd gwell ar gyfer ffermio ac ar gyfer byd natur, gan roi mynediad i ffermwyr at adnoddau i helpu i gyflawni'r nodau bioamrywiaeth, cynefin a chynaliadwyedd yn ein parciau cenedlaethol a'n tirweddau cenedlaethol, gan helpu ffermwyr i adeiladu busnesau cynaliadwy yn y lleoedd hyn.

Bydd unrhyw gynefin sy'n cael ei greu neu ei wella o dan Ffermio Bro yn gymwys o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a bydd yn cyfrif tuag at y gofynion cyffredinol ar gyfer cynefinoedd. Gall ffermwyr sydd wedi cyflawni gwaith priodol er mwyn cefnogi cynefin fel rhan o brosiect Ffermio Bro elwa drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ni fydd unrhyw anfantais iddynt.

Bydd cyfraddau talu a gynigir drwy Ffermio Bro yn gydnaws â chynlluniau eraill a gynigir gan Lywodraeth Cymru sy'n ariannu'r un gweithgareddau. Y gwahaniaethau allweddol yw natur gydweithredol Ffermio Bro, a bod y cynllun yn canolbwyntio ar dirweddau dynodedig.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rheolwr Cenedlaethol Ffermio Bro: Lawrence Harris, Rheolwr Rhaglen Adfer Natur Tirweddau Dynodedig Tirweddau Cymru lawrenceh@pembrokeshirecoast.org.uk.

## Prosiect mawndiroedd ac ucheldiroedd

Mewn ymateb i'r angen brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithio'n galed i warchod y storfa garbon helaeth sydd gan ein mawndiroedd. Mae hyn yn dilyn angen cydnabyddedig i gynyddu'r gwaith o adfer mawndiroedd, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

### Cyllid:

- Ar gyfer 2023–2025, cafodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog £360,000 o gyllid drwy gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i adfer cynefinoedd mawndir ac atgyweirio erydiad llwybrau ucheldir ar draws y parc. Mae'r ffrwd ariannu hon o ryw £4 miliwn y flwyddyn ar gael i awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tirweddau cenedlaethol yn unig.

- Yn ogystal, mae CNC wedi rhoi £253,000 i awdurdod y parc cenedlaethol fel rhan o'r Raglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, gyda gwaith cysylltiedig yn cael ei gydlynu ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdod y parc. I gydnabod yr effeithiau buddiol ar ddŵr yfed o fewn dalgylchoedd Cronfa Ddŵr Ganol y Bannau, mae Dŵr Cymru wedi dyrannu £185,000 (2022–2025).

### Ffeithiau allweddol:

- Gall erydiad llwybrau troed ar draws yr ucheldiroedd niweidio cynefinoedd a mawndiroedd. Mae atgyweiriadau i lwybrau'r ucheldir a wneir ochr yn ochr â gwaith adfer mawn i leihau erydu yn caniatáu i fawndiroedd wella, gan osgoi allyriadau carbon pellach o fawn sydd wedi'i erydu a'i ddraenio, gan amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol a chynyddu gwydnwch ecolegol y tir. Gellir gweld canlyniadau cadarnhaol darparu llwybr cynaliadwy ar draws ardaloedd mawnog neu ar lethrau serth yn gymharol gyflym – yn Waun Fach ar y Mynydd Du, er enghraifft.
- Mae Dŵr Cymru yn cael o leiaf hanner ei gyflenwadau dŵr yfed o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ddyddiol. Lle mae'r corsydd mewn cyflwr gwael, maent yn rhyddhau carbon tawdd, cyfansoddion eraill a silt mawn, sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yng nghronfeydd dŵr yfed y parc cenedlaethol. Mae adfer y corsydd yn raddol yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr a lleihau costau peirianneg trin dŵr. Mae storio dŵr yn yr ucheldiroedd mewn corsydd hefyd yn hanfodol er mwyn gallu cynhyrchu pŵer trydan dŵr ar raddfa fach yn y dyfodol.

- Drwy amddiffyn ac aildyfu llystyfiant yn yr ardaloedd lle mae gorgorsydd wedi'u difrodi, nod y parc cenedlaethol yw gwarchod a gwella bywyd gwyllt arbennig mawnogydd ac amgylchedd hanesyddol yr ucheldiroedd. Mae nifer o rywogaethau'r rhostir, megis y gylfinir, yn lleihau ar draws y parc cenedlaethol. Drwy gydweithio, gellir manteisio ar gyfleoedd i adfer byd natur, gan wella cysylltedd â thir caeëdig a systemau afonydd yn unol â Chynllun Gweithredu Adfer Natur y parc cenedlaethol.

Mae mawndiroedd sydd wedi'u difrodi a gorgorsydd sydd mewn cyflwr gwael yn rhyddhau mwy o garbon nag y maent yn ei amsugno. Dyma un rheswm pam ei bod mor bwysig eu diogelu a'u hadfer. Maent hefyd yn gartref i rywogaethau bywyd gwyllt prin a bregus. Mae rhostir yn y cyflwr ecolegol gorau yn darparu ardaloedd gwell ar gyfer bywyd gwyllt, ac mae'n gallu gwrthsefyll siociau a straen hinsawdd sy'n newid yn well er mwyn darparu buddion cadarnhaol i'r cymunedau a'r aneddiadau sydd i lawr y bryn, i lawr yr afon, a dan y gwynt.



[Mawndiroedd ac ucheldiroedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (https://bannau.cymru/)](https://bannau.cymru/)

# Cysylltu Natur 25x25

Nod y fenter uchelgeisiol hon yw hybu adferiad byd natur ar draws 25% o ran ogleddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro erbyn 2025. Bydd y prosiect yn helpu i gysylltu cynefinoedd cyfoethog eu rhywogaethau â safleoedd sydd wedi'u gwarchod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan feithrin amgylchedd mwy gwydn lle gall bywyd gwyllt ffynnu.

## Cyllid:

- Ariannwyd gan grant hael o £244,450 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, wedi'i ategu gan £5,000 ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Arfordir Penfro.

## Ffeithiau allweddol:

- Mae rhan o brosiect Cysylltu Natur 25x25 yn cynnwys adeiladu ar waith presennol awdurdod y parc cenedlaethol o gefnogi ffermwyr a thyddynwyr sy'n defnyddio technegau ffermio traddodiadol i warchod natur ar eu tir eu hunain ac ar diroedd comin.
- Drwy ddefnyddio technoleg ffensio rhithwir arloesol ochr yn ochr â gwelliannau i seilwaith, y gobaith yw y bydd ffermwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u tir, gan ddefnyddio arferion sy'n gyfeillgar i fyd natur.
- Agwedd allweddol arall fydd rheoli rhywogaethau estron goresgynnol sy'n bygwth safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a dyfrffyrdd ledled yr ardal.

- Ymhlith y rhywogaethau y disgwylir iddynt elwa o brosiect Cysylltu Natur 25x25 mae ystlumod pedol ac ystlumod du, pathewod, llygod medi, brain coesgoch, titwod yr helyg, brithion y gors a brithion perlog bach, mursennod glas Penfro, gwiberod, a chennau.

Yn ogystal â'r buddion ecolegol, mae'r prosiect hefyd yn anelu at greu cyfleoedd i unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau difreintiedig gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cadwraeth natur. Drwy fentrau fel y prosiect Llwybrau, mae unigolion yn ennill sgiliau a phrofiadau gwerthfawr, gan feithrin cysylltiad dyfnach rhwng cymunedau a'u hamgylchoedd naturiol.

Dywedodd Katie Macro, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Arfordir Penfro: "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi sicrhau cyllid ar gyfer Cysylltu Natur 25x25. Mae'r prosiect hwn yn gam sylweddol ymlaen yn ein hymdrechion parhaus i amddiffyn ac adfer amgylchedd naturiol y parc cenedlaethol.

"Drwy gydweithio â ffermwyr, cymunedau a sefydliadau partner, gallwn sicrhau dyfodol llewyrchus i fyd natur a phobl."

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae'n cael ei gyflawni gan y Gronfa Dreftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfleoedd cadwraeth ymarferol yn y parc cenedlaethol ar gael yma: https://www.arfordirpenfro.cymru/cymryd-rhan/gwirfoddoli/gwirfoddoli-ymarferol-cadwraethol/.

Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau cyllid ar gyfer prosiect Cysylltu Natur 25x25 – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



## Prosiect Pen-pont

Wedi'i lansio yn haf 2019 ar ystad 2,000 erw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Prosiect Pen-pont yw'r prosiect adfer byd natur i bontio'r cenedlaethau mwyaf o'i fath yn unrhyw le yn y byd.

Cychwynnwyd y prosiect gan Action for Conservation, Ystad Pen-pont a grŵp arweinyddiaeth ieuenctid dynamig o 20 o bobl ifanc 12–18 oed o gefndiroedd amrywiol. Mae'r prosiect yn arwain ymgyrch dros adferiad cyfannol natur, diwylliant a chymuned gyda ffocws penodol ar alluogi pobl ifanc i gamu i arweinyddiaeth.

### Cyllid:

- Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Rhwydweithiau Natur, ei ddarparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, a'i gefnogi trwy gyllid gan sefydliadau eraill megis cyllid 'Fertilise the Future' gan Ecover.

### Ffeithiau allweddol:

- Mae'n anelu at adfer prosesau naturiol ac arferion ffermio adfywiol ym Mhen-pont.
- Mae'n ymgorffori arweinyddiaeth ieuenctid a dulliau cyfranogol mewn ymarfer adfer ecolegol.
- Mae'n creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol, a fydd yn creu cyfleoedd cymdeithasol, ecolegol ac economaidd amrywiol i holl bartneriaid y prosiect.
- Mae'n anelu at greu canolfan addysg a all wasanaethu pobl ifanc o'r ardal leol a thu hwnt am ddegawdau i ddod.

Mae'r prosiect wedi mapio amrywiaeth naturiol a diwylliannol Pen-pont yn y gorffennol a chyflwr y tir heddiw, a'r bywoliaethau y mae'n eu cynnal er mwyn meithrin dealltwriaeth a gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol lle mae tiroedd gwyllt a dyfrffyrdd yn croestorri â ffermio a choedwigaeth sy'n gyfeillgar i fyd natur i ffurfio mosaig bio-ddiwylliannol amrywiol ffyniannus sy'n diwallu anghenion pawb.

Mae'r prosiect yn cyfrannu at gynllun Dyfodol y Bannau, ac mae'r parc cenedlaethol wedi bod yn gefnogwr allweddol i'r prosiect, trwy gynnig gyngor a chydweithio â wardeiniaid y parc cenedlaethol. Mae'r prosiect wedi plannu mwy na 3,000 o goed, adfer gwrychoedd, gosod pyllau, gwlyptiroedd a gwelyau helyg newydd, a dechrau symud tuag at arferion amaethyddol adfywiol.

Mae'r prosiect wedi dod â chymuned o ffermwyr, coedwigwyr, pobl ifanc, tirfeddianwyr a gweithwyr elusennol ynghyd, wedi gwella llesiant y rhai sy'n cymryd rhan, ac wedi meithrin diddordeb mewn astudio, gwirfoddoli a/neu yrfa sy'n cynnwys diogelu ac adfer byd natur.



[Prosiect Pen-pont | ACTION FOR CONSERVATION]

## Yr Wyddfa Ddi-blastig

Yr Wyddfa yw'r mynydd mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac mae sbwriel yn dod yn fygythiad gwirioneddol i'w ddyfodol cynaliadwy. Gwelir gwastraff plastig yn arbennig ar hyd y llwybrau a'r ardaloedd cyfagos, ac os na chaiff y broblem hon ei datrys, dim ond

gwaethygu y gwnaiff hyn dros amser. Mae’r Wyddfa Ddi-blastig yn gam pwysig ac uchelgeisiol wrth ddiogelu dyfodol cynaliadwy’r mynydd. Mae Parc Cenedlaethol Eryri, ynghyd ag ymwelwyr, busnesau ac ysgolion yn gweithio ar ymgyrch i leihau plastigion untro sy’n cael eu gwerthu, eu defnyddio a’u taflu ar fynydd prysuraf Cymru, ac o’i amgylch.

## Cyllid:

- Mae’r prosiect wedi’i ariannu gan ……. gan gynnwys swyddog prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig.

## Ffeithiau allweddol:

- Mae tudalen we ‘Pacio ar gyfer eich antur ddi-blastig’ yn rhoi cyngor ar eitemau i’w cymryd ar daith gerdded er mwyn osgoi defnyddio plastigion untro a’r tebygolrwydd y bydd plastigion yn cael eu taflu ar y mynydd.

- Mae BananaCam yn ffilmio dadelfennu croen banana mewn amser real er mwyn addysgu ac annog pobl i beidio â thaflu sbwriel. Mae croen banana yn cymryd misoedd / blynyddoedd i bydru’n llwyr yn yr ucheldiroedd. Dyna’r pedwerydd eitem sbwriel a gesglir fwyaf, ac maen nhw’n newid pH y pridd cyfagos.

- Nod Arwyr y Gorffennol yw ysbrydoli newid yn y ffordd y gwarchodir y mynydd drwy ddefnyddio chwedlau’r Brenin Arthur a’r Mabinogion i adrodd stori Eryri a’i gwarchod.

Mae gwirfoddolwyr yn cydweithio yn yr ymgyrch, yn cynnal arolygon, ac yn casglu sbwriel. Mae’r ymgyrch yn darparu achrediad i fusnesau y mae eu gweithrediadau’n 90%, 60% neu 40% yn rhydd o blastig. Mae 25 o fusnesau wedi’u hachredu, gan gynnwys maes gwersylla, gwestai a lleoliadau gwely a brecwast, bwytai, caffis, a lleoliadau cludfwyd.




[Yr Wyddfa Ddi-blastig | Parc Cenedlaethol Eryri]

# Thema 2. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch

## Yr Ysgwrn

Ym mis Chwefror 2013, gwnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gais am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig i adfer, adnewyddu, gwella mynediad i, a newid defnydd cyfadeilad o adeiladau rhestredig a thraddodiadol yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd. Yn ffermdy rhestredig gradd II*, Yr Ysgwrn oedd cartref Hedd Wyn, un o feirdd mwyaf adnabyddus Cymru. Prynodd awdurdod y parc cenedlaethol yr Ysgwrn yn ei gyfanrwydd yn 2014. Mae'r fferm yn cael ei ffermio gan denant, sy'n byw oddi ar y safle, trwy gytundeb tenantiaeth busnes fferm, ac ymgynghorwyd â'r tenant drwy gydol y broses gynllunio.

### Cyllid:

- Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

### Ffeithiau allweddol:

- Cymeradwywyd y cais cynllunio ym mis Gorffennaf 2013, a sicrhaodd y pryniant a'r prosiect ddyfodol y ffermdy fel symbol o hanes cenedlaethol i genedlaethau i ddod, gan warchod a gwella rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol y parc cenedlaethol.

- Penododd awdurdod y parc cenedlaethol dîm dylunio dan arweiniad penseiri cadwraeth Purcell UK i weithio gyda'r awdurdod i ddatblygu cynllun sensitif, uchelgeisiol a chynaliadwy ar gyfer dyfodol yr Ysgwrn. Penododd yr awdurdod grŵp prosiect hefyd, gan ddod ag arbenigedd technegol o fewn yr awdurdod ynghyd i lywio'r broses. Roedd hyn yn cynnwys rheoli eiddo, yr amgylchedd hanesyddol adeiledig a chynllunio, cadwraeth ac amaethyddiaeth.

- Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol drwy gydol y gwaith, gan gynnwys yn ystod y broses gynllunio. Ymgysylltodd rheolwr y prosiect â'r cyngor cymuned drwy gydol y prosiect, gan fynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned yn rheolaidd a chwrdd â chynghorwyr, cymdogion a thrigolion ar y safle i drafod syniadau, cynlluniau a phryderon. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio yn y pentref ac yn yr Ysgwrn yn ystod cyfnod ymgynghori statudol y broses gynllunio i hwyluso ymgysylltiad. Ymgysylltwyd â swyddogion Cadw drwy grŵp rheoli strategol, gan ddarparu mewnbwn drwy gydol y broses. Roedd cyfathrebu da yn hanfodol i lwyddiant.

- Y canlyniad terfynol yw safle sydd wedi'i adfer yn sensitif, gan amlygu arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr Ysgwrn trwy gynnal ei gymeriad a'i draddodiadau. Mae cadwraeth a gwarchodaeth yr adeiladau hanesyddol a'r eiddo wedi creu lle ar gyfer profiad ymwelwyr o safon uchel, gan sicrhau bod arwyddocâd Hedd Wyn a threftadaeth naturiol a diwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cyfleu i genedlaethau'r dyfodol mewn ffordd sy'n anrhydeddu ei hanes. Ers hynny, mae'r datblygiad wedi ennill sawl gwobr uchel ei phroffil, gan gynnwys: Adeilad y Flwyddyn a Phensaer y Prosiect Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru

(2018), Gwobr Cadwraeth Adeiladau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (2018) a Gwobr Treftadaeth Ewropeaidd Europa Nostra (2019).

www.yrysgwrn.com



## Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru

Mae'r prosiect wedi cael ei arwain gan Dirwedd Genedlaethol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar ran wyth tirwedd dynodedig, gan gynnwys tri pharc cenedlaethol Cymru. Nod y prosiect yw gwarchod yr awyr dywyll a lleihau llygredd golau yn yr ardaloedd, a lleihau'r effaith negyddol ar fioamrywiaeth, yr hinsawdd ac iechyd y cyhoedd. Nod Prosiect Nos Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru yw helpu i greu'r ardaloedd mwyaf o awyr dywyll warchodedig yn y byd, yn ymestyn o Fryniau Clwyd i Eryri a Llŷn.

### Cyllid:

- Ariannwyd y prosiect o gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru rhwng 2022 a 2025, ac mae'n parhau tan 2026.

### Ffeithiau allweddol:

- Mae Eryri yn warchodfa awyr dywyll ryngwladol ac y mae wedi elwa o ddigwyddiadau cyhoeddus ac ymgysylltu prosiect Awyr Dywyll.
- Mae'r prosiect wedi newid dros 500 o oleuadau yn ein hardaloedd tywyllaf i rai sy'n gyfeillgar i'r awyr dywyll, gan gynnwys ôl-osod Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas y Brenin yng Nghapel Curig i fod yn gyfeillgar i'r awyr dywyll.
- Mae'r prosiect wedi cynhyrchu canllaw goleuadau cymunedol hawdd ei ddefnyddio (Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy) ac wedi arwain at brosiect ar y cyd i ddatblygu canllawiau arfer da: Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2025.
- Cynhyrchwyd llyfryn yn dathlu enwau Cymraeg y sêr a straeon Cymreig amdanynt.

- Datblygwyd 'arsyllfa symudol' i ddod â'r sêr i ganol ein cymunedau yn y parc cenedlaethol.

Mae awyr dywyll iawn heb olau artiffisial, fel goleuadau stryd, yn hynod bwysig i fywyd gwyllt y parciau cenedlaethol, gan gynnwys ystlumod, tylluanod ac infertebratau, ac maent yn rhan hanfodol o'r ansawdd arbennig o lonyddwch sydd mor amlwg ym mhob un o barciau cenedlaethol Cymru.

[Awyr dywyll: canllawiau cynllunio | LLYW.CYMRU]

[Prosiect NOS]



Lluniau cyn ac ar ôl ailwampio goleuadau yn y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol, Plas y Brenin, Capel Curig. Mae'r canlyniadau terfynol yn dangos gostyngiad trawiadol o ran golau sy'n goleuo i fyny a llewyrch yr awyr, gostyngiad mewn golau gwastraffus ac allyriadau carbon, a fyddai'n golygu arbed arian parod ar filiau trydan, goleuadau mwy diogel i bobl a bywyd gwyllt, a golygfeydd gwell o'r Llwybr Llaethog.

## Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Mae'r bartneriaeth yn grŵp o dros 20 o sefydliadau lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu i warchod treftadaeth ddiwylliannol a naturiol tirwedd y Carneddau, sydd wedi'i lleoli ym mhen mwyaf gogleddol Parc Cenedlaethol Eryri.

### Cyllid:

- Mae'r prosiect wedi cyflawni rhaglen pum mlynedd (2020–2025), a wnaed yn bosibl diolch i gyllid o £1.7 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r prosiect adfer mawndiroedd wedi cael cefnogaeth gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

### Ffeithiau allweddol:

- Prosiectau cadwraeth natur, gan gynnwys adfer dolydd cyfoethog eu rhywogaethau i gynnal peillwyr a llinos y mynydd, rhywogaeth brin o adar; adfer rhostir mynyddig i atal dirywiad; adfer mawndiroedd trwy ailbroffilio ac adfer mawn noeth trwy hau / plannu; rheoli a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol; plannu coetiroedd ar

lannau afonydd, tyfu hadau lleol a chofnodi coed a pherllannau hynafol; a chofnodi brain coesgoch trwy waith monitro, cyfrif a thagio.

- Prosiectau treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys lleisiau'r Carneddau, cofnodi straeon a hanes cymunedau a'u cysylltiadau â'r dirwedd; enwau lleoedd y Carneddau, casglu a mapio enwau lleoedd Cymraeg i'w hychwanegu at gronfa ddata Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; mapio LiDAR o ddefnydd tir hanesyddol, aneddiadau a nodweddion archaeolegol i helpu i gofnodi a gwarchod treftadaeth; cofnodi safleoedd bwyelli Neolithig a gweithio ar gloddfeydd archaeolegol; gwaith monitro a chadwraeth carneddau cerrig cysegredig; a datgelu henebion hynafol i'w cofnodi a'u gwarchod trwy glirio rhedyn ac eithin.

- Gwella mynediad drwy osod arwyddion, addysg, dehongli, a hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad.

Darparodd y bartneriaeth gronfa grant gymunedol o £50,000 ar gyfer prosiectau cymunedol lleol gwerth tua £5,000 y prosiect, bu'n gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau, a darparodd hyfforddiant i wirfoddolwyr ar sut i gofnodi treftadaeth a bioamrywiaeth a rheoli rhywogaethau goresgynnol, yn ogystal â hyfforddi tri phrentis mewn rheolaeth amgylcheddol.



[Prosiectau – Partneriaeth Tirwedd y Carneddau]

# Thema 3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith

## Bysiau arfordirol Sir Benfro

Mae bysiau arfordirol Sir Benfro yn wasanaethau lleol sy'n teithio i fyny ac i lawr arfordir Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gael mynediad at lwybrau cerdded, traethau, teithiau cwch, pentrefi ac atyniadau. Mae hyd cyfan Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n 186 milltir (299 cilometr) o Landudoch i Lanrath, yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus, saith diwrnod yr wythnos yn yr haf, dau ddiwrnod yr wythnos yn y gaeaf, ac mae'n wasanaeth galw a theithio yn cynnwys lle i gŵn a phramiau.

### Cyllid:

- Darperir cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i gynnal eu rhwydwaith bysiau lleol. Darparodd Cyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru dros £3 miliwn mewn cymorth i wasanaethau bysiau yn Sir Benfro ar gyfer 2024–2025.

### Ffeithiau allweddol:

- Mae gwasanaeth bysiau Pâl Gwibio yn teithio o Dyddewi i Farloes drwy bentrefi arfordirol, traethau a'r lanfa fferi i Ynys Sgomer.

- Mae Gwibfws yr Arfordir yn cwmpasu Penrhyn Angle a Gwibiwr Strwmbl ardal Pen-caer, tra bod y Gwibiwr Celtaidd o Dyddewi i Borth Stinian yn helpu i wella anawsterau o ran mynediad yn y lleoliad anghysbell a gwerthfawr hwn, sy'n fan ymadael ar gyfer teithiau cwch i Ynys Dewi ac ynysoedd eraill oddi ar y lan.

- Mae bysiau Fflecsi yn eich casglu ac yn eich gollwng ar eich cais ac yn newid eu llwybr fel y gall pob teithiwr gyrraedd lle mae angen iddynt fynd. Maent hefyd yn cysylltu â gorsafoedd trên lleol. Gall cwsmeriaid archebu drwy lawrlwytho ap Fflecsi neu drwy ffonio.

Helpodd ymgynghoriad cyhoeddus i lywio penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau poblogaidd y Gwibiwr Celtaidd, Gwibfws yr Arfordir, y Pâl Gwibio a Gwibiwr Strwmbl.

I gael amserlenni a'r newyddion diweddaraf, ewch i wefan Cyngor Sir Penfro (yn agor mewn ffenestr newydd).

Ewch i wefan Bws Fflecsi (yn agor mewn ffenestr newydd).




## Prosiect Cyfnod Ffrwydrol

Nod y prosiect yw sicrhau dyfodol hirdymor Gwaith Powdr Gwn Glyn-nedd drwy warchod yr adeiladau a dod â hanes y safle, ei weithlu a'i effaith ehangach yn fyw. Y weledigaeth yw y bydd trigolion ac ymwelwyr unwaith eto'n dathlu'r safle a bydd mwy o ymwelwyr yn deall ac yn mwynhau ei etifeddiaeth hanesyddol, yn ogystal â'i ffawna a'i fflora prin.

### Cyllid:

- Mae cymorth ariannol wedi'i ddarparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Ymddiriedolaeth Gibbs.

### Ffeithiau allweddol:

- Arweinir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda mewnbwn gan Gymdeithas Parc Bannau Brycheiniog, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, y gymuned leol, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed-Powys i enwi dim ond rhai.
- Yn ogystal ag achub yr adfeilion, mae'r prosiect yn cynnwys gwaith i glirio rhywfaint o'r goedwigaeth estron i ddod â'r coetir hynafol a'r fflora a'r ffawna yn ôl i'r safle.
- Mae'n anelu at wella profiad ymwelwyr o'r safle yn sylweddol, gyda gwell arwyddion, gwybodaeth ac adnoddau dehongli, a phrofiad digidol syfrdanol hefyd.



Cyfnod Ffrwydrol – y prosiect | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Cynllun Llysgenhadon Eryri

Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y cynllun hynod boblogaidd Llysgennad Eryri. Dyma gynllun sydd wedi cyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth y diwydiant twristiaeth lleol o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn eithriadol. Mae'r cwrs ar-lein am ddim yn un o gyfres Cynllun Llysgenhadon Cymru.

### Cyllid:

- Ariannwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru fel rhan o Gynllun Llysgenhadon Twristiaeth Cymru, trwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig 2014–2020 a Chwrs Adnewyddu Eryri 2025.

### Ffeithiau allweddol:

- Cynllun hyfforddi o safon uchel sy'n cynnig achrediad unigryw i unigolion neu fusnesau, ac sy'n bwriadu addysgu a rhannu negeseuon er mwyn gwarchod y pethau sy'n gwneud Eryri yn eithriadol.

- Ers y lansiad, mae'r cynllun wedi mynd o nerth i nerth gyda thros 1,000 yn ennill y teitl Llysgennad Eryri. Mae Cynllun Llysgenhadon Cymru hefyd ar gael yn Sir Ddinbych ac ardaloedd eraill.

- Yn ogystal â'r modiwlau ar rinweddau arbennig y parc cenedlaethol, mae rhaglen Llysgenhadon Eryri yn cynnig cyfleoedd pellach i ddysgu mwy am themâu fel twristiaeth gynaliadwy a phrosiect yr Wyddfa Ddi-blastig. Er mwyn sicrhau bod llysgenhadon yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith yr awdurdod, cyhoeddir modiwl gloywi bob blwyddyn i bob Llysgennad Aur ailachredu.

- Mae'r manteision i fusnesau'n cynnwys cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus, helpu i gynyddu teyrngarwch ac ymweliadau dro ar ôl tro, gan hybu economi Eryri gyda phrofiad unigryw, cynyddu nifer yr ymwelwyr, hyd yr arhosiad, a gwariant gan ymwelwyr.

Dywedodd David Griffith, Llysgennad Aur Eryri:

"Mae dod yn Llysgennad Aur i Eryri wedi bod yn llwyfan perffaith i ehangu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o gymeriad unigryw'r rhanbarth hudolus hwn o Gymru.

Gan adeiladu ar brofiad oes o fyw a gweithio yma, mae wedi cyflwyno diddordebau newydd i mi o ran ein diwylliant, ein treftadaeth, ein natur a'n hamgylchedd; yn enwedig wrth ddatblygu ymdeimlad craff o stiwardiaeth gynaliadwy, wrth ymgysylltu ag ymwelwyr ac unigolion lleol fel ei gilydd i hyrwyddo a chynorthwyo eu mwynhad o'n hardal.

Mae fy musnes ffotograffiaeth tirweddau wedi elwa'n aruthrol o ran hyrwyddo fy hygrededd a'm gwybodaeth fel tywysydd i ymwelwyr."

Cwrs Llysgenhadon Parc Cenedlaethol Eryri – Llysgennad Cymru




## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd rai astudiaethau achos sy'n dangos arfer da wrth fynd i'r afael â rhai materion cyffredin sy'n codi ym mharciau cenedlaethol presennol Cymru, ac sydd hefyd yn debygol o godi neu sydd wedi'u codi fel pryderon mewn parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut mae parciau cenedlaethol presennol Cymru yn gallu mynd i'r afael â phryderon ynghylch rheoli'r dirwedd yn gynaliadwy er budd byd natur, ffermio a chymunedau.

Mae'r astudiaethau achos yn sampl fach o'r prosiectau rhagorol sy'n cael eu cynnal ym mharciau cenedlaethol presennol Cymru, ac yn darparu enghreifftiau ymarferol o'r buddion a all ddeillio o statws parc cenedlaethol i'w cymunedau lleol, busnesau, ffermwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Maent yn dangos sut y gall parciau cenedlaethol ddenu cyllid ychwanegol drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ychwanegu gwerth at y gwaith a wnânt i warchod a gwella tirwedd a chynyddu dealltwriaeth a mwynhad o'u rhinweddau arbennig.